



## BILIAU GWERTHANT

### CYFRAITH NEWYDD AR GYFER BENTHYCIADAU LLYFR LOG

1. Mae'r Deddfau Biliau Gwerthiant yn statudau hynafol o Oes Fictoria, ac yn addas ar gyfer trefniadau credyd modern fel benthyciadau llyfr log. Mae Comisiwn y Gyfraith yn argymhell y dylid eu diddymu a'u disodli gan Ddeddf Morgeisi Nwyddau er mwyn:
  - darparu amddiffyniad priodol i bobl sy'n cael benthyg arian, fel nad yw cerbydau'n cael eu hatafaelu'n rhy rhwydd;
  - diogelu prynwyr diniwed sy'n prynu cerbydau heb sylweddoli eu bod yn destun bil gwerthiant;
  - arbed £2 filiwn o gostau a achosir gan gofrestru diangen a biwrocratiaeth;
  - cael gwared ar gyfyngiadau diangen ar fenthyca sicredig i fusnesau bach.

#### Cefndir

2. Mae biliau gwerthiant yn ffordd i unigolyn allu defnyddio nwyddau sy'n eiddo iddo eisoes fel sicrwydd ar gyfer benthyciad, tra'n cadw meddiant ar y nwyddau hynny. Cânt eu rheoleiddio ar hyn o bryd gan Ddeddf Biliau Gwerthiant 1878 a Deddf Biliau Gwerthiant 1882.
3. Mae defnyddio biliau gwerthiant wedi cynyddu o 3,000 yn 2001 i fwy na 37,000 yn 2015. Cânt eu defnyddio'n bennaf erbyn hyn ar gyfer "**benthyciadau llyfr log**", sef mae'r sawl sy'n cael y benthyciad yn trosglwyddo perchnogaeth ar ei gerbyd presennol i'r sawl sy'n rhoi'r benthyciad. Gall rhywun sy'n ad-dalu'n rheolaidd barhau i'w ddefnyddio. Ond, mae rhywun sy'n methu talu'n gallu colli'r cerbyd yn gymharol rhwydd. Yn wahanol i hurbwrcas, nid oes angen i'r sawl sy'n rhoi benthyg geisio cael gorchymyn llys cyn adfeddiannu'r cerbyd.
4. Rhaid cofrestru benthyciadau llyfr log yn yr Uchel Lys. Ond gan fod y gofrestr hon bron yn amhosibl i ddarparu brynwr ceir allu ei chwilio, mae'r rhai sy'n rhoi benthyciadau hefyd yn cofrestru ar gofrestr cyllid asedau preifat. Mae hyn yn amddiffyn prynwyr masnachol, ond nid rhai preifat. Mae prynwyr preifat yn cael eu rhwystro gan gost gwiriad cyllid asedau llawn, ac maent yn cael eu drysu gan 'wiriadau neges destun' sy'n rhatach ond yn methu darparu gwybodaeth am fenthyciadau llyfr log. Gan fod y benthyciad yn dilyn y cerbyd, gall prynwyr golli ceir a brynwyd ag ewyllys da.
5. Yn 2014, gofynnodd Trysorlys EM i Comisiwn y Gyfraith edrych ar y Deddfau Biliau Gwerthiant ac ystyried sut y gellid eu diwygio. Ym Medi 2016, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad llawn, gyda 34 o argymhellion. Mae llawer ohonynt wedi'u dylunio i leihau costau a'i gwneud yn haws i fusnesau bach roi sicrwydd ar gyfer benthyciadau. Yma, rydym yn canolbwyntio ar yr argymhellion sydd fwyaf perthnasol i fenthyciadau llyfr log.

## Amddiffyn pobl sydd wedi cymryd benthyciad

1. Mae'r Deddfau Biliau Gwerthiant yn caniatáu i rai sy'n rhoi benthyciadau allu adfeddiannu cerbydau heb orchymyn llys, hyd yn oed pan fo'r sawl sy'n cael y benthyciad wedi ad-dalu'r rhan fwyaf o'r benthyciad. Mae'r enghraifft hon gan Cyngor ar Bopeth yn dangos y broblem:

Cymerodd dynes fenthyciad llyfr log yn erbyn ei char am £1,600. Chwe mis ar ôl taliad olaf yr archeb sefydlog, fe wnaeth y cwmni glampio car y cleient a dweud bod £400 yn weddill. Gofynnwyd iddi dalu'r ôl-ddyledion ynghyd â £750 o ffi clampio. Ers hynny, mae'r car wedi cael ei adfeddiannu ac mae'r cwmni'n gofyn am £1,600 arall i ddychwelyd y cerbyd.

2. Rydym yn argymhell amddiffyniadau tebyg i'r rhai sydd ar gael dan gyfraith hurbwrcas.
3. Yn gyntaf, dylai rhywun sydd wedi benthycia ac wedi talu o leiaf traean o'r cyfanswm gael yr hawl i ofyn i'r sawl a roddodd y benthyciad **gael gorchymyn llys** cyn adfeddiannu cerbyd. Byddai hynny'n amddiffyn pobl sydd wedi cael benthyciad ac a allai dalu'r benthyciad yn llawn petaen nhw'n cael rhagor o amser.
4. Yn ail, dylai rhywun sydd wedi cael benthyciad heb obaith realistig o'i ad-dalu gael **hawl i derfynu'n wirfoddol**, yn seiliedig ar god presennol y Gymdeithas Fasnach Gredyd Defnyddwyr. Byddai hyn yn caniatáu i rywun sydd wedi cael benthyciad arian i drosglwyddo'r cerbyd yn ôl heb ragor o ad-daliadau neu ffioedd.

## Amddiffyn prynwyr preifat

5. Mae'r enghraifft hon gan Cyngor ar Bopeth yn dangos bod angen amddiffyn prynwyr diniwed:

Roedd cleient wedi prynu fan ar ôl gweld hysbyseb ar Autotrader. Yn fuan ar ôl ei phrynu, aeth y fan ar goll. Cysylltodd y cleient â'r heddlu a dweud ei bod wedi cael ei dwyn. Dywedodd yr heddlu wrth y cleient fod y cerbyd wedi cael ei adfeddiannu gan fod y perchennog blaenorol wedi cael benthyciad llyfr log arno. Mae'r cleient wedi colli'r arian a dalodd am y fan ac mae naill ai'n gorfod negodi gyda'r benthyciwr llyfr log neu geisio cael gafael ar y gwerthwr heb fawr o wybodaeth amdano.

6. Rydym yn argymhell amddiffyniadau tebyg i'r rhai sydd ar gael yn y gyfraith hurbwrcas. **Dylai prynwr preifat sy'n gweithredu gyda phob ewylllys da ddod yn berchen ar y cerbyd.**
7. I amddiffyn y rhai sy'n rhoi benthyciadau, dylai'r Ddeddf ei gwneud yn glir ei bod yn **drosedd** i rywun werthu cerbyd heb ddatgelu ei fod yn destun benthyciad llyfr log.

## Y PRIF ARGYMHELLION:

- Dirymu'r hen ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â biliau gwerthiant
- Gweithredu Deddf Morgeisi Nwyddau i reoleiddio benthyciadau sydd wedi'u sicrhau ar nwyddau
- Cynyddu'r amddiffyniad i bobl sy'n cymryd benthyciadau a phrynwyr trydydd parti

Gellir cael yr adroddiad llawn a'r dogfennau ymgynghori ar-lein: <http://www.lawcom.gov.uk/project/bills-of-sale/>